

Cymelliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20



Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth: rhif 203/2019

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2019

Yn disodli dogfen wybodaeth: rhif 200/2018

Cymelliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20

Cynulleidfa	Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
Trosolwg	Canllawiau i'w defnyddio gan ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau cyn gwasanaethu amser llawn ym maes addysg gychwynnol i athrawon sy'n arwain at gymhwyster i addysgu yn y maes addysg bellach, ym mlwyddyn academaidd 2018/19 (sef Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant – 'darparwyr addysg gychwynnol athrawon TAR (AB)'), ynglŷn â gweinyddu ac asesu cymhwystera ar gyfer taliadau grant a'r fethodoleg sydd i'w defnyddio i'w cyfrifo.
Camau i'w cymryd	Mae gofyn i ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon gymryd camau i ymgyfarwyddo â'r canllawiau ac â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n ofynnol bod darparwyr yn trefnu i wneud taliadau grant i fyfyrwyr cymwys sydd ar gyrsiau addysg gychwynnol athrawon cymwys yn unol â'r canllawiau hyn a darparu ffurflenni a gwybodaeth fel y pennir yma.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Tîm Addysg Gychwynnol Athrawon Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 03000 604400 e-bost: ITEIncentives@llyw.cymru
	 @LIC_Addysg
	 Facebook/AddysgCymru
Copiau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/addysg-a-sgiliau

Cynnwys

Crynodeb	Error! Bookmark not defined.
1. Trosolwg	3
2. Cymhwystra ar gyfer cymelliadau TAR (AB)	4
3. Talu cymelliadau TAR (AB)	7
4. Pryd y dylid gwneud y taliadau	8
5. Sut y dylid talu'r cymelliadau TAR (AB)	9
6. Sut y trosglwyddir cyllid ar gyfer y cymelliadau TAR (AB) i'r darparwyr AGA TAR (AB)	10
7. Cyllid ar gyfer costau gweinyddol darparwyr AGA TAR (AB)	11
8. Adennill cymelliadau TAR (AB) a dalwyd	12
Atodiad 1: Grantiau cymhelliant hyfforddi athrawon TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20: gwybodaeth i fyfyrwyr	13
Atodiad 2: Talu cymhelliant TAR (AB) – cyfarwyddiadau ar gyfer darparwyr hyfforddiant AGA TAR (AB)	19
Atodiad 2A: Ffurflen TTFE/2A 2019/20 – llofnodion awdurdodedig ar gyfer hawliadau	23
Atodiad 2B: Ffurflen TTFE/2B 2019/20 – cais a datganiad myfyriwr	24
Atodiad 2C: Ffurflen TTFE/2C 2019/20 – datganiad y darparwr	25
Atodiad 2D: Ffurflen TTFE/2D 2019/20 – ffurflen hysbysu ynghylch myfyrwyr cymwys	26
Atodiad 2E: Ffurflen TTFE/2E 2019/20 – hawlio taliad a datganiad	27
Atodiad 2F: Ffurflen TTFE/2F 2019/20 – ardystiad yr archwilydd cymhelliant hyfforddi	28
Atodiad 3: Hysbysiad Preifatrwydd i fyfyrwyr sy'n derbyn cymelliadau TAR (AB)	30

Crynodeb

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i ddarparu cymorth ariannol, neu wneud trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol, i unrhyw berson ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, galluogi unrhyw berson i gael unrhyw hyfforddiant ar gyfer athrawon neu ar gyfer staff nad ydynt yn addysgwyr; neu ar gyfer hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgwyr.

Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â grantiau cymhelliant hyfforddi athrawon sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n cychwyn ar gyrsiau amser llawn o addysg gychwynol athrawon TAR (AB) cyn gwasanaethu, sy'n arwain at gymhwyster i addysgu yn y maes addysg bellach ("cymelliadau TAR (AB)"). Maent yn berthnasol o ran myfyrwyr cymwys yng Nghymru sy'n dechrau ar gyrsiau o'r fath rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020.

Mae'r canllawiau wedi eu dyroddi gan Weinidogion Cymru ac yn darparu gwybodaeth am y cymelliadau TAR (AB); maent yn amlinellu'r cyllid sydd ar gael, pwy sy'n gymwys i gael grant a sut y gwneir taliadau. Er nad ydynt yn ymdrin â phob agwedd, rhoddir gwybodaeth lawn isod ynglŷn â chymhwystra a'r amodau. Dyllid darllen y canllawiau hyn yn eu cyfanrwydd er mwyn cael cadarnhad ynghylch cymhwystra i gael grant.

Nid yw'r canllawiau hyn yn ymwneud â chymelliadau a gynigir ar gyrsiau addysg gychwynol athrawon sy'n arwain at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig.

1. Trosolwg

1.1 Yn yr adran hon ceir trosolwg cryno ar y cymelliadau TAR (AB) ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020. Nid yw'n ymdrin â phob agwedd; rhoddir gwybodaeth lawn ynglŷn â chymhwysra ac amodau yn adrannau 2-7 o'r canllawiau hyn.

1.2 Grantiau yw'r cymelliadau TAR (AB), sydd ar gael i bersonau cymwys i ymgymryd â chysiau ôl-raddedig penodedig o addysg gychwynnol athrawon addysg bellach yng Nghymru. Rhaid i'r cyrsiau ddechrau rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020, a rhaid iddynt fod yn gyrsiau amser llawn o addysg gychwynnol athrawon TAR (AB) cyn gwasanaethu, sy'n arwain at gymhwyster i addysgu yn y maes addysg bellach.

1.3 Yn ddarostyngedig i gymhwysra, gall myfyrwyr sydd ar gyrsiau a amlinellir ym mharagraff 1.2 gael cymelliadau TAR (AB) o hyd at £3,000 (i rai sy'n astudio mewn pynciau penodedig mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (pynciau STEM), Cymraeg a'r Sgiliau Byw – Llythrennedd a Rhifedd) neu £1,000 (i rai sy'n astudio mewn unrhyw bwnc arall).

1.4 Ni thelir grant i unrhyw berson oni fydd y person hwnnw wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru, o dan ofal Llywodraeth Cymru, yn y fformat a gymeradwyir. Bydd rhaid i'r darparwyr AGA TAR(AB) ofyn i'w myfyrwyr lenwi'r ffurflenni perthnasol.

2. Cymhwysra ar gyfer cymelliadau TAR (AB)

- 2.1 Mae cymelliadau TAR (AB) ar gael i fyfyrwyr sy'n bodloni'r criteria cymhwysra ym mharagraff 2.2, ac yn dechrau ar gwrs amser llawn o addysg gychwynnol athrawon cyn gwasanaethu mewn pynciau penodedig ar lefel addysg bellach gyda sefydliad addysg uwch (prifysgol neu goleg cysylltiol) yng Nghymru rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020. Cynigir cymelliadau o hyd at £3,000 (i rai sy'n astudio yn y pynciau penodedig a restrir ym mharagraff 2.3) neu hyd at £1,000 (i rai sy'n astudio mewn unrhyw bwnc arall).
- 2.2 I fod yn gymwys i gael cymhelliant TAR (AB), rhaid i fyfyrwr—
- (a) pan dderbynnir y myfyriwr i'r cwrs, fod yn ddeiliad gradd gyntaf¹ o sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfwerth;
 - (b) bod â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs²; ac
 - (c) peidio â bod mewn unrhyw un o'r categorïau canlynol o bersonau nad oes hawl ganddynt i gael y grant hyfforddi—
 - (i) myfyrwyr a gwblhaodd gwrs o addysg gychwynnol athrawon ar lefel addysg bellach cyn 1 Medi 2019;
 - (ii) myfyrwyr sy'n cymryd Tystysgrif mewn Addysg (AB) nad yw'n gymhwyster ôl-raddedig;
 - (iii) myfyrwyr TAR (AB) nad ydynt yn ddeiliaid gradd ar ddechrau'r cwrs;
 - (iv) myfyrwyr TAR (AB) sy'n astudio ar gyrsiau mewn swydd;
 - (v) myfyrwyr TAR (AB) sy'n astudio yn rhan-amser;
 - (vi) unrhyw un sydd eisoes yn ddeiliad Statws Athro Cymwysedig; neu
 - (vii) unrhyw un a gyflogir i addysgu mewn unrhyw goleg addysg bellach neu sefydliad addysg arall mewn unrhyw swydd.

2.3 Y pynciau penodedig y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.1 yw'r canlynol –

Pynciau mathemateg:

Mathemateg Gymhwysol

Mathemateg Gyffredinol

Mathemateg a mecaneg

Mathemateg ac ystadegaeth

¹ Nid yw "gradd gyntaf" yn cynnwys gradd sylfaen.

² Y Rheoliadau sydd, ar hyn o bryd, yn gymwys i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2018 i 31 Awst 2019 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 (O.S. 2018/191 (Cy.42)). Bydd y rheoliadau hyn yn parhau mewn grym am y flwyddyn academaidd 2019/20.

Mathemateg Bur

Ystadegaeth

Pynciau gwyddoniaeth:

Gwyddoniaeth Gymhwysol

Bioleg

Cemeg

Cadwraeth

Gwyddor daear

Ecoleg

Electroneg

Gwyddor yr Amgylchedd

Gwyddoniaeth Gyffredinol

Daeareg

Bioleg Ddynol

Ffiseg

Gwyddor chwaraeon

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD)

Peirianwyr cyfrifiaduron

Astudiaethau cyfrifiadur(ol)

Gweithrediadau TG

Cymraeg

Sgiliau Byw – Llythrennedd a Rhifedd

Technoleg a Pheirianeg

Trydanwyr modurol

Cynnal a chadw moduron

Peirianeg dylunio a datblygu

Dylunio a Thechnoleg

Peirianeg drydanol

Electroplatio

Astudiaethau peirianeg

Peirianeg fecanyddol

Peirianeg platiau metel
Mecaneg/peirianwyr moduron
Mecaneiddio chwaraeon moduro
Peirianeg cynhyrchu a phrosesau
Peirianeg rheweiddio
Technoleg Deunyddiau Gwrthsafol
Gwneud a ffitio offer
Gosod teiars, pibelli gwacáu a ffenestri blaen
Paentio a chwistrellu cerbydau
Adeiladu cyrff cerbydau
Weldio a ffabrigo

3. Talu cymelliadau TAR (AB)

- 3.1 Bydd y cymhelliant TAR (AB) o hyd at £3,000 yn cael ei dalu mewn naw rhandaliad misol yn ystod neu o gwmpas wythnos olaf y mis mewn perthynas â'r cyfnod Hydref 2019 i Fehefin 2020. Bydd y taliadau misol o Hydref 2019 i Fai 2020 (yn gynwysedig) yn £300 yr un, a'r taliad olaf ym Mehefin 2020 yn £600.
- 3.2 Bydd y cymhelliant TAR (AB) o hyd at £1,000 yn cael ei dalu mewn naw rhandaliad misol yn ystod neu o gwmpas wythnos olaf y mis mewn perthynas â'r cyfnod Hydref 2019 i Fehefin 2020. Bydd y taliadau misol o Hydref 2019 i Fai 2020 (yn gynwysedig) yn £100 yr un, a'r taliad olaf ym Mehefin 2020 yn £200.
- 3.3 **Sylwer:** at ddibenion paragraffau 3.1 a 3.2, ac eithrio ym mis Mehefin, "yr wythnos olaf" ym mhob mis yw'r wythnos sy'n cynnwys diwrnod gwaith olaf y mis hwnnw. Yr "wythnos olaf" ym mis Mehefin fydd naill ai'r wythnos sy'n cynnwys y diwrnod gwaith olaf ym mis Mehefin neu, os yw'n gynharach, yr wythnos pan fo'r cwrs yn dod i ben.
- 3.4 Bydd gan unigolion sy'n gymwys am gymhelliant TAR (AB) ac yn ymuno â chwrs sydd eisoes wedi cychwyn, neu sy'n gadael cwrs cyn ei gwblhau, yr hawl i gael y taliadau misol hynny, yn unig, sy'n dod yn daladwy tra byddant yn ymgymryd â'r cwrs. Ni wneir taliadau am fisoedd a gwblheir yn rhannol.
- 3.5 Os bydd person, a fyddai fel arall yn gymwys i gael cymhelliant TAR (AB), ond sydd hefyd wedi cael rhan neu'r cyfan o gymhelliant TAR (AB), o dan y cynllun hwn neu unrhyw gynllun blaenorol yng Nghymru cyn 1 Medi 2019 (neu wedi cael, ar unrhyw adeg, unrhyw swm o grant a oedd yn daladwy mewn perthynas â chynlluniau cyfatebol yn Lloegr), bydd y taliad o gymhelliant TAR (AB) y bydd hawl gan y person hwnnw i'w gael, yn cael ei leihau o'r swm o grant blaenorol a dalwyd i'r person hwnnw.
- 3.6 Bydd y cymelliadau TAR (AB) i fyfyrwyr cymwys a fydd yn ailymuno â chwrs ar ôl gadael y cwrs yn gynharach yn cael eu talu ar y gyfradd isaf (os oes un) o'r gyfradd grant hyfforddi a oedd yn gymwys yn y flwyddyn y gadawodd y myfyriwr y cwrs, neu'r gyfradd grant hyfforddi sy'n gymwys yn y flwyddyn y mae'r myfyriwr yn ailymuno â'r cwrs, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno fel arall, yn ysgrifenedig. Bydd y cymelliadau TAR (AB) i fyfyrwyr sy'n ymuno â chwrs ar ôl gohirio'u cofrestriad yn cael eu talu ar y gyfradd cymhelliant TAR (AB) (os oes un) sy'n gymwys yn y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn ailymuno/ymuno â'r cwrs, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno fel arall, yn ysgrifenedig.
- 3.7 Os bu myfyriwr i ffwrdd am gyfnod o absenoldeb salwch hirdymor neu os oedd wedi atal ei astudiaethau dros dro, ond yn ailymuno â'r cwrs rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020 er mwyn cwblhau'r amser a gollwyd, bydd yn gymwys i gael cyllid am y cyfnod rhwng ailymuno â'r cwrs a'i orffen. Mae hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff 3.6, ac ni chaiff cyfanswm y taliadau fod yn fwy na'r swm a bennir ym mharagraff 3.1 neu 3.2, pa un bynnag sy'n berthnasol i'r pwnc a astudir.

4. Pryd y dylid gwneud y taliadau

4.1 Dylid gwneud pob taliad yn ystod wythnos olaf y mis y daw'r taliad yn ddyledus ynddo. Mater i'r darparwyr yw penderfynu union ddyddiadau'r taliadau, gan gadw mewn cof y diffiniad o'r "wythnos olaf" o bob mis, a roddir ym mharagraff 3.3 uchod.

4.2 Ni ddylid gwneud taliadau ac eithrio i'r myfyrwyr hynny sy'n bresennol ar y cwrs ar y diwrnod talu. Rhaid peidio â gwneud taliad i unrhyw fyfyrwr sydd wedi gadael y cwrs cyn y dyddiad hwnnw, neu sydd i ffwrdd am gyfnod o absenoldeb salwch hirdymor. Os bydd Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu cyllid i'r darparwr AGA ar gyfer taliad grant i unrhyw fyfyrwr sydd wedyn yn gadael y cwrs cyn bo'r taliad yn cael ei wneud, bydd Llywodraeth Cymru yn addasu'r taliadau dilynol.

5. Sut y dylid talu'r cymelliadau TAR (AB)

- 5.1 Bydd myfyrwyr cymwys yn cael y grant gan eu darparwr AGA TAR (AB), a bydd pob darparwr yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y nifer o fyfyrwyr sydd ar ei gwrs.
- 5.2 Ar ddechrau eu cyrsiau, dylid gofyn i'r myfyrwyr lofnodi ffurflen ddatganiad a fydd yn eu galluogi i hawlio'u grant (ar 'Ffurflen TTFE/2B 2018/19). Dylid defnyddio'r ffurflen yn atodiad 2B at y diben hwnnw. Dylid nodi bod y ffurflen honno'n cynnwys eitem yn y datganiad sy'n gofyn i'r myfyriwr gadarnhau ei fod wedi darllen y canllawiau "Grantiau Cymhelliant Hyfforddi Athrawon TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20: Gwybodaeth i Fyfyrwyr" – atodir copi ohonynt yn atodiad 1
- 5.3 Rhaid i'r darparwyr AGA TAR (AB) sicrhau bod pob myfyriwr cymwys yn cael copi o'r canllawiau, a hynny mewn da bryd, fel y cânt gyfle i'w darllen cyn gofyn iddynt lofnodi'r 'Ffurflen TTFE/2B 2019/20'.
- 5.4 Os bydd arnoch angen cyngor i benderfynu a yw myfyriwr yn fyfyrwr cymwys, sydd â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'w gwrs, os gwelwch yn dda gofynnwch am gadarnhad gan awdurdod lleol y myfyriwr yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Gall y maes hwn fod yn un cymhleth, a'r awdurdod lleol fydd yn y safle orau i asesu'r sefyllfa.
- 5.5 Rydym yn fodlon caniatáu i'r darparwyr AGA TAR (AB) benderfynu ar y trefniadau mwyaf addas ar gyfer gwneud y taliadau i fyfyrwyr, ar yr amod y darperir trywydd archwilio eglur, fel y gellir dangos yn eglur bod unrhyw fyfyrwr penodol wedi cael y taliadau gan y darparwr AGA TAR (AB) mewn gwirionedd.

6. Sut y trosglwyddir cyllid ar gyfer y cymelliadau TAR (AB) i'r darparwyr AGA TAR (AB)

- 6.1 Yn ystod pob mis o'r flwyddyn academaidd o Hydref 2018 i Fehefin 2020, rhaid i bob un o'r canolfannau AGA TAR (AB) ddarparu i Lywodraeth Cymru restrau o enwau a rhifau'r myfyrwyr sydd ar bob un o'u cyrsiau TAR (AB), ar y Ffurflen TTFE/2D 2019/20 (mae copi ohoni yn atodiad 2D). Dylid dynodi yn eglur ar y ffurflen honno unrhyw fyfyrwyr sydd wedi gadael y cwrs er pan anfonwyd y rhestr fisol flaenorol. Dylid anfon y rhestrau hyn ynghyd â'r Ffurflen Hawlio Taliad a Datganiad TTFE/2E 2019/20 (mae copi ohoni yn Atodiad 2E), ynghlwm wrth lythyr eglurhaol oddi wrth y darparwr AGA TAR (AB), wedi ei lofnodi gan un o'r llofnodwyr awdurdodedig, yn gofyn am daliad o'r swm priodol ar gyfer y grantiau.
- 6.2 Rhaid anfon rhestrau'r mis cyntaf ar y Ffurflen TTFE/2D 2019/20 at Lywodraeth Cymru ynghyd â chopiau cyflawn o'r Ffurflen TTFE/2B 2019/20, un ar gyfer pob myfyriwr a restrwyd. Dylid anfon y rhain fel atodiadau i ddatganiad y darparwr ar y Ffurflen TTFE/2C 2019/20 (mae copi ohoni yn atodiad 2C).
- 6.3 Rhaid i'r Ffurflenni TTFE/2C 2019/20, TTFE/2D 2019/20 a TTFE/2E 2019/20 gael eu llofnodi gan lofnodwr awdurdodedig o'r darparwr AGA TAR(AB). Ffurflen i'w defnyddio gan y ganolfan AGA TAR (AB) yw TTFE/2A 2019/20 (copi ohonynt yn Atodiad 2A), i ddarparu i ni fanylion a llofnodion hyd at dri llofnodwr awdurdodedig ar gyfer y taliadau. Y rhain fydd yr unig bobl gaiff lofnodi hawliad am daliad ar ran y ganolfan AGA TAR (AB). Bydd angen ichi ddychwelyd y ffurflenni hyn atom ni cyn y gallwn wneud unrhyw daliad, a ddim hwyrach beth bynnag na 31 Hydref 2019.
- 6.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud taliadau misol i'r darparwyr AGA TAR (AB) rhwng Hydref 2019 a Mehefin 2020, yn uniongyrchol i gyfrifon banc y darparwyr i'w galluogi i wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys. Mae paragraff 5 o Atodiad 2 yn pennu amserlen ar gyfer cyflwyno'r hawliadau i Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau y gallwn wneud y taliadau cyn eu bod yn ddyledus i'r myfyrwyr.
- 6.5 Yn ystod y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r darparwyr AGA TAR (AB) ynglŷn â myfyrwyr sy'n gadael y cwrs yn gynnar, er mwyn gwneud unrhyw addasiadau perthnasol yn y taliadau.
- 6.6 Mae copi o'r cyfarwyddiadau manwl ar gyfer darparwyr TAR (AB), sy'n cynnwys amserlenni ar gyfer hawlio a thalu, wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

7. Cyllid ar gyfer costau gweinyddol darparwyr AGA TAR (AB)

- 7.1 Bydd hawl gan y darparwyr AGA TAR (AB) i gael taliad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Hydref 2019 a Mehefin 2020, ar gyfradd wastad o 2% o gyfanswm y cymelliadau TAR(AB) sy'n daladwy, i ddiwallu eu costau gweinyddol.
- 7.2 Telir hwn ar wahân i'r grantiau hyfforddi. Dylai darparwyr TAR(AB) anfonebu Llywodraeth Cymru bob chwarter blwyddyn am y gost ychwanegol o 2%.
- 7.3 Os bydd yn ofynnol ad-dalu unrhyw grant i Lywodraeth Cymru dylid ad-dalu'r costau gweinyddol cysylltiedig yn ogystal.

8. Adennill cymelliadau TAR (AB) a dalwyd

- 8.1 Mae pwerau gan Weinidogion Cymru i adennill cymelliadau TAR (AB) a dalwyd, yn llawn neu'n rhannol. Mater i ddisgresiwn Gweinidogion Cymru yw penderfynu a ddylid arfer y pwerau hynny, a byddant yn ystyried pob achos unigol yn ôl ei deilyngdod. Unwaith y bydd taliadau wedi eu gwneud i gyfrif banc myfyriwr, dylid cyfeirio unrhyw benderfyniad i'w hadennill at Lywodraeth Cymru, cyn cymryd unrhyw gamau ynglŷn â'r mater
- 8.2 Gall Gweinidogion Cymru benderfynu arfer y pwerau hyn—
- (a) os yw'r derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o gymhelliant TAR (AB), yn methu â bodloni unrhyw griterion cymhwysra a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rhandaliad dilynol; neu
 - (b) os yw'r derbynnydd, yn ei gais am gymhelliant TAR (AB) neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol; neu
 - (c) os oes tystiolaeth bendant nad oedd y derbynnydd erioed wedi bwriadu cwblhau'r cwrs, neu nad oedd, ar ôl ei gwblhau, erioed wedi bwriadu mynd yn addysgwr.
- 8.3 Ynglŷn â pharagraff 8.2(a), rydym yn ymwybodol o'r anawsterau ymarferol sy'n codi wrth geisio atal taliadau tua'r un pryd ag y byddwch yn ceisio penderfynu a yw hyfforddai wedi tynnu'n ôl o'r cwrs ai peidio, neu wrth benderfynu a ddylech derfynu ei raglen hyfforddi ai peidio. Ar yr amod y ceir eglurhad bod hyfforddai wedi tynnu'n ôl o gwrs, neu benderfyniad wedi ei wneud i derfynu rhaglen, o fewn 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad taliad, ni fyddwn yn gwneud yn ofynnol eich bod yn adennill taliadau a wnaed i hyfforddeion o dan ddarpariaethau paragraff 8.2(a). Ond ni fydd hyn yn rhwystro adennill os yw amgylchiadau Paragraff.8.2(b) neu (c) yn gymwys.
- 8.4 Er gwaethaf paragraff 8.3, dylai darparwyr AGA TAR (AB) gymryd pob cam angenrheidiol i atal ar unwaith unrhyw daliadau yn y dyfodol os ceir eglurhad bod hyfforddai wedi tynnu'n ôl o gwrs, neu benderfyniad wedi ei wneud y dylid terfynu rhaglen.

Atodiad 1: Grantiau cymhelliant hyfforddi athrawon TAR (AB) – blwyddyn academiaidd 2019/20: gwybodaeth i fyfyrwyr

1. Cymhwysra

Pwy sy'n gymwys?

- 1.1 Mae myfyrwyr yn gymwys i gael grant cymhelliant hyfforddi athrawon TAR (AB) ("cymhelliant TAR (AB)") os ydynt yn bodloni'r criteria cymhwysra ym mharagraffau 1.2 ac 1.3, ac yn dechrau ar gwrs ôl-raddedig amser llawn o addysg gychwynnol athrawon cyn gwasanaethu ar lefel addysg bellach gyda sefydliad addysg uwch (prifysgol neu goleg cysylltiol) yng Nghymru rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020.
- 1.2 Rhaid i fyfyrwyr, pan dderbynnir hwy i'r cwrs, fod yn ddeiliaid gradd gyntaf o sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfwerth. (Sylwer: nid yw "gradd gyntaf" yn cynnwys gradd sylfaen. Mae gradd sylfaen yn gymhwyster lefel prifysgol yn ei hunan, cyfwerth â'r ddwy flynedd gyntaf o radd arhydedd.)
- 1.3 Rhaid i fyfyrwyr hefyd fod â hawl ganddynt i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs. Y Rheoliadau sydd, ar hyn o bryd, yn gymwys i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academiaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2018 i 31 Awst 2019 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018 Rhif 191 (Cy.42)). Bydd y rheoliadau hyn yn parhau mewn grym am y flwyddyn academiaidd 2019/20.

Pwy sy'n anghymwys?

- 1.4 Yn ogystal â myfyrwyr nad ydynt yn bodloni'r gofynion cymhwysra a bennir ym mharagraffau 1.1-1.3, nid yw'r canlynol yn gymwys i gael cymhelliant TAR (AB):-
 - (a) myfyrwyr a gwblhaodd gwrs o hyfforddiant cychwynnol athrawon ar lefel addysg bellach cyn 1 Medi 2019;
 - (b) myfyrwyr sy'n cymryd Tystysgrif mewn Addysg (AB) nad yw'n gymhwyster ôl-raddedig;
 - (c) myfyrwyr TAR (AB) nad ydynt yn ddeiliaid gradd ar ddechrau'r cwrs;
 - (d) myfyrwyr TAR (AB) sy'n astudio ar gyrsiau mewn swydd;
 - (e) myfyrwyr TAR (AB) sy'n astudio yn rhan-amser;
 - (f) unrhyw un sydd eisoes yn ddeiliad Statws Athro Cymwysedig; neu
 - (g) unrhyw un a gyflogir i addysgu mewn unrhyw goleg addysg bellach neu sefydliad addysg arall mewn unrhyw swydd.

Beth am fyfyrwyr TAR (AB) sy'n dechrau cwrs TAR (AB) ym Medi 2020?

- 1.5 Mae'r cymelliadau TAR (AB) a ddisgrifir yma yn ymwneud, yn unig, â myfyrwyr cymwys sy'n dechrau ar gwrs cymwys ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond ddim hwyrach na 31 Awst 2020. Pe bai unrhyw gyllid yn dod ar gael ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, byddai'n cael ei gyhoeddi ar wahân, ac ni

ddylech ragdybio dim ynghylch cyllid yn y dyfodol oni fydd y cyllid wedi ei gadarnhau yn benodol.

A oes terfynau oedran, uchaf neu isaf, ar gyfer ceiswyr?

1.6 Nac oes.

Beth pe bai'r darparwr (prifysgol neu goleg cysylltiol) yn mynnu bod myfyrwyr cymwys yn treulio cyfnod mewn sefydliad addysg bellach cyn bo'r addysg gychwynnol athrawon yn dechrau'n ffurfiol?

1.7 Ar yr amod bod y cwrs yn dechrau'n ffurfiol ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond ddim hwyrach na 31 Awst 2020, byddant yn gymwys i gael y grant hyfforddi.

2. Manylion Ariannol

Faint fydd myfyrwyr cymwys yn ei gael?

2.1 Swm y cymelliadau TAR (AB) i fyfyrwyr cymwys fydd hyd at £3,000 (i rai ar gyrsiau fel yr amlinellir ym mharagraff 1.2, sy'n astudio mewn pynciau penodedig fel y rhestrir ym mharagraff 1.5) neu hyd at £1,000 (i rai ar gyrsiau a amlinellir ym mharagraff 1.2 sy'n astudio mewn unrhyw bwnc arall).

2.2 Y pynciau penodedig y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.1 uchod yw'r canlynol:-

Pynciau mathemateg:

Mathemateg Gymhwysol

Mathemateg Gyffredinol

Mathemateg a mecaneg

Mathemateg ac ystadegaeth

Mathemateg Bur

Ystadegaeth

Pynciau gwyddoniaeth:

Gwyddoniaeth Gymhwysol

Bioleg

Cemeg

Cadwraeth

Gwyddor daear

Ecoleg

Electroneg

Gwyddor yr Amgylchedd

Gwyddoniaeth Gyffredinol

Daeareg

Bioleg Ddynol

Ffiseg

Gwyddor chwaraeon

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD)

Peirianwyr cyfrifiaduron

Astudiaethau cyfrifiadur(ol)

Gweithrediadau TG

Cymraeg

Sgiliau Byw – Llythrennedd a Rhifedd

Technoleg a Pheirianeg

Trydanwyr modurol

Cynnal a chadw moduron

Peirianeg dylunio a datblygu

Dylunio a Thechnoleg

Peirianeg drydanol

Electroplatio

Astudiaethau peirianeg

Peirianeg fecanyddol

Peirianeg platiau metel

Mecaneg/peirianwyr moduron

Mecaneiddio chwaraeon moduro

Peirianeg cynhyrchu a phrosesau

Peirianeg rheweiddio

Technoleg Deunyddiau Gwrthsafol

Gwneud a ffitio offer

Gosod teiars, pibelli gwacáu a ffenestri blaen

Paentio a chwistrellu cerbydau

Adeiladu cyrff cerbydau

Weldio a ffabrigo

Pa daliadau a wneir, a pha bryd?

- 2.3 Bydd y rhai sy'n gymwys i gael y cymhelliant TAR (AB) o hyd at £3,000 mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd 2019/20 yn cael eu talu mewn naw rhandaliad misol yn ystod, neu o gwmpas, wythnos olaf y mis mewn perthynas â'r cyfnod Hydref 2019 i Fehefin 2020. Bydd y taliadau misol o Hydref 2019 i Fai 2020 (yn gynwysedig) yn £300 yr un, a'r taliad olaf ym Mehefin 2020 yn £600.
- 2.4 Bydd y rhai sy'n gymwys i gael y cymhelliant TAR (AB) o hyd at £1,000 mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd 2019/20 yn cael eu talu mewn naw rhandaliad misol yn ystod, neu o gwmpas, wythnos olaf y mis mewn perthynas â'r cyfnod Hydref 2019 i Fehefin 2020. Bydd y taliadau misol o Hydref 2019 i Fai 2020 (yn gynwysedig) yn £100 yr un, a'r taliad olaf ym Mehefin 2020 yn £200.
- 2.5 (Sylwer: at ddibenion paragraffau 2.3 a 2.4, ac eithrio ym mis Mehefin, "yr wythnos olaf" ym mhob mis yw'r wythnos sy'n cynnwys diwrnod gwaith olaf y mis. Yr "wythnos olaf" ym Mehefin fydd naill ai'r wythnos sy'n cynnwys y diwrnod gwaith olaf ym mis Mehefin neu, os yw'n gynharach, yr wythnos pan fo'r cwrs yn dod i ben.)

Sut y caiff y taliadau eu gwneud?

- 2.6 Trwy'r darparwr addysg gychwynnol athrawon (y brifysgol neu goleg cysylltiol). Bydd y sefydliad wedyn yn hawlio'r taliadau gan Lywodraeth Cymru.
- 2.7 Ar ddechrau eu cyrsiau, gofynnir i'r myfyrwyr lofnodi ffurflen ddatganiad a fydd yn eu galluogi i hawlio'u cymhelliant TAR (AB) (ar Ffurflen TTFE/2B 2019/20). Dylid nodi bod y ffurflen honno'n cynnwys eitem yn y datganiad sy'n gofyn i'r myfyriwr gadarnhau ei fod wedi darllen y canllawiau hyn.

A oes modd i fyfyrwyr hawlio mwy na £3,000 neu £1,000 o gymhelliant TAR (AB) os yw eu cwrs yn ymestyn i flwyddyn ychwanegol?

- 2.8 Nac oes. Uchafswm y cymelliadau TAR (AB) yw £3,000 neu £1,000 yn ôl y math o gwrs a ddilynir.

3. Materion i hyfforddeion sy'n gadael cwrs neu'n ailymuno â chwrs

Beth am bobl sy'n ymuno â chwrs sydd eisoes wedi cychwyn, neu'n rhoi'r gorau i'w hyfforddiant?

- 3.1 Bydd hawl gan unigolion sy'n gymwys am gymhelliant TAR (AB) ac yn ymuno â chwrs sydd eisoes wedi cychwyn, neu sy'n gadael cwrs cyn ei gwblhau, i gael y taliadau misol hynny, yn unig, a ddaw'n ddyledus i'w talu mewn perthynas â'r cyfnod y maent yn bresennol ar y cwrs.

Beth am bobl sy'n rhoi'r gorau i'w hyfforddiant ond yn ailafael yn eu hastudiaethau yn ddiweddarach?

- 3.2 Bydd y cymelliadau TAR (AB) i fyfyrwyr sy'n ailymuno â chwrs ar ôl ei adael yn cael eu talu ar y gyfradd isaf (os oes un) o'r gyfradd grant hyfforddi a oedd yn gymwys yn y flwyddyn y gadawodd y myfyriwr y cwrs, neu'r gyfradd

grant hyfforddi sy'n gymwys yn y flwyddyn y mae'r myfyriwr yn ailymuno â'r cwrs, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno fel arall, yn ysgrifenedig. Gofynnir i ddarparwyr geisio cyngor pellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â myfyrwyr sydd yn y categori hwn ac i beidio â gwneud unrhyw ymrwymiad mewn perthynas â pharhad unrhyw daliadau grant pellach heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

- 3.3 Bydd y cymelliadau TAR (AB) i fyfyrwyr sy'n cychwyn cwrs ar ôl gohirio'u cofrestrriad yn cael eu talu ar y gyfradd cymhelliant TAR (AB) (os oes un) sy'n gymwys yn y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn ailymuno/ymuno â'r cwrs, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno fel arall, yn ysgrifenedig.
- 3.4 Os bu myfyriwr i ffwrdd am gyfnod o absenoldeb salwch hirdymor neu os oedd wedi atal ei astudiaethau dros dro, ond yn ailymuno â'r cwrs rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020 er mwyn cwblhau'r amser a gollwyd, bydd yn gymwys i gael cyllid am y cyfnod rhwng ailymuno â'r cwrs a'i orffen. Mae hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraffau 3.2 a 3.3, ac ni chaiff cyfanswm y taliadau fod yn fwy na pha un bynnag o'r symiau a bennir ym mharagraff 2.1 sy'n berthnasol i'r pwnc a astudir.

Beth am bobl sydd wedi cael cymhelliant TAR (AB) yn y gorffennol?

- 3.5 Os yw person, sydd eisoes wedi cael Cymhelliant TAR (AB) cyn 1 Medi 2019 o dan y cynllun hwn neu unrhyw gynllun blaenorol yng Nghymru neu wedi cael, ar unrhyw adeg, unrhyw swm o grant a oedd yn daladwy mewn perthynas â chynlluniau cyfatebol yn Lloegr, yn dechrau neu'n ailymuno â chwrs, bydd unrhyw gymhelliant TAR (AB), y gallai fod yn gymwys i'w gael am y cwrs hwnnw, yn cael ei leihau o swm y grant y mae'r person hwnnw eisoes wedi ei gael. Er enghraifft, pe bai myfyriwr cymwys a oedd wedi dechrau cwrs TAR (AB) un flwyddyn amser llawn yn 2010/11, ac wedi cael y chwe rhandaliad misol cyntaf cyn gadael y cwrs hwnnw, yna, os yw'n ailafael mewn hyfforddiant cychwynol athrawon yn 2019/20 (ac yntau'n parhau i fodloni'r gofynion cymhwystra) byddai hawl ganddo, yn unig, i gael gweddill y swm dyledus mewn dau rhandaliad cyfartal, un ar ddechrau'r cwrs ac un ar ei ddiwedd.

Beth am bobl sydd wedi rhoi'r gorau i gwrs ôl-raddedig rhan-amser o addysg gychwynol athrawon ar lefel addysg bellach cyn Awst 2018 ac yn dymuno ailddechrau ar y cwrs amser llawn o fis Medi 2019 ymlaen?

- 3.6 Nid yw cyrsiau rhan-amser sydd wedi eu cwblhau neu eu gadael cyn Awst 2019 yn effeithio ar y cymhwystra am gymhelliant TAR (AB) rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020.

4. Cwestiynau Ariannol Cysylltiedig

Oes yna unrhyw amgylchiadau pan fyddai'n rhaid imi, hwyrach, ad-dalu'r cymhelliant TAR (AB)?

- 4.1 Mae pwerau gan Weinidogion Cymru i adennill cymhelliant TAR (AB) a dalwyd, yn llawn neu'n rhannol. Mater i'w disgrisiwn yw penderfynu a ddylid arfer y pwerau hynny, a byddant yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

4.2 Gall Gweinidogion Cymru benderfynu arfer y pwerau hyn—

- (a) os yw'r derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o gymelliadau TAR (AB), yn methu â bodloni unrhyw griterion cymhwysra a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â rhandaliad dilynol; neu
- (b) os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol; neu
- (c) os oes tystiolaeth bendant nad oedd y derbynnydd erioed wedi bwriadu cwblhau'r cwrs, neu nad oedd, ar ôl ei gwblhau, erioed wedi bwriadu mynd yn addysgwr.

A yw'r cymhelliant TAR (AB) yn drethadwy?

4.3 Ein dealltwriaeth ni yw nad yw'r cymhelliant TAR (AB) yn drethadwy i fyfyrwyr amser llawn. Yn achos myfyrwyr rhan amser, gall y cyflog fod yn drethadwy; mae'n dibynnu ar ba mor uchel yw cyfanswm eich incwm trethadwy am y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr ofyn am gyngor gan Gyllid a Thollau EM ynglŷn â'u sefyllfa bersonol.

Beth fydd effaith y cymhelliant TAR (AB) ar gymorth arall a roddir i fyfyrwyr?

4.4 At ddibenion darpariaethau cyllid myfyrwyr eraill, sy'n seiliedig ar incwm yr aelwyd, ni fydd cymhelliant TAR (AB) yn cael ei ystyried yn rhan o'ch incwm, ac ni ddylech ei gynnwys wrth gyfrifo'ch incwm nas enillwyd trethadwy.

Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar fudd-daliadau?

4.5 Dylech ofyn am gyngor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â'ch sefyllfa unigol.

A fydd y cymhelliant TAR (AB) yn ysgogi ad-daliadau benthyciad?

4.6 Nid tra byddwch mewn hyfforddiant amser llawn. Mae'n bosibl yr ysgogir ad-daliadau benthyciad pan fyddwch yn ennill cyflog.

Atodiad 2: Talu cymhelliant TAR (AB) – cyfarwyddiadau ar gyfer darparwyr hyfforddiant AGA TAR (AB)

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghlŷn â'r cyfarwyddiadau hyn at –

Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 604400

e-bost: ITEIncentives@llyw.cymru

1. Gwybodaeth sydd i'w darparu i Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon, Llywodraeth Cymru

1.1 Er hwylustod wrth weinyddu'r cymelliadau TAR(AB), dylai pob darparwr AGA TAR (AB) ddarparu pwynt cyswllt penodol at ddefnydd Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon Llywodraeth Cymru. Y Cangen hon fydd yn dyrannu'r ffurflenni perthnasol ar gyfer y cynllun ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch taliadau.

1.2 Ar gyfer 2019/20, rhaid i'r ffurflenni hawlio taliadau gael eu llofnodi gan lofnodwr awdurdodedig o'r darparwr AGA TAR (AB). Dylai darparwyr AGA TAR (AB) ddefnyddio'r Ffurflen TTFE/2A 2019/20 yn Atodiad 2A i ddarparu manylion a llofnodion hyd at dri llofnodwr awdurdodedig i ni ar gyfer y taliadau. Y llofnodwyr hyn yn unig gaiff llofnodi hawliad am daliad ar ran y darparwr AGA TAR (AB). Bydd angen dychwelyd y ffurflenni hyn atom ni cyn y gellir gwneud unrhyw daliad, ddim hwyrach beth bynnag na 31 Hydref 2019.

1.3 Ar ôl penderfynu ynghylch cymhwystra'r holl fyfyrwyr sydd ar gyrsiau ôl-raddedig addysg bellach (rhoddir cyngor ynghlŷn â chymhwystra yn adran 2 o'r canllawiau "Cymelliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20"), dylai darparwyr AGA TAR (AB) baratoi rhestr o'r myfyrwyr cymwys gan ddefnyddio'r Ffurflen TTFE/2D 2019/20 yn Atodiad 2D. Mae'r ffurflen hon yn gofyn am gyfenw, enw(au) cyntaf a rhif pob myfyriwr. Dylid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob cwrs.

1.4 Dylai'r darparwyr AGA TAR (AB) anfon copïau o'r Ffurflenni TTFE/2D 2019/20, ynghyd â chopïau o'r holl Ffurflenni TTFE/2B 2019/20 cyflawn (gweler paragraff 4.2 isod) ac ynghlwm wrth Ffurflen TTFE/2C 2019/20 (yn Atodiad C), wedi ei llofnodi gan y llofnodwr awdurdodedig, at y Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon. Dylai'r darparwyr AGA TAR (AB) anfon y rhain at y Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon erbyn 31 Hydref 2018.

2. Sut i hawlio'r cyllid ar gyfer y cymelliadau TAR (AB) gan Lywodraeth Cymru

2.1 Ar yr ysbeidiau penodedig ac erbyn y dyddiadau a bennir yn yr amserlen a ddarperir, anfonwch Ffurflen TTFE/2E 2019/20 (yn Atodiad E), ynghyd â'r Ffurflenni TTFE/2D wedi eu diweddarau ac yn cynnwys y rhestr gyflawn o fyfyrwyr cymwys sydd ar y cwrs ar y pryd, ynghlwm wrth llythyr swyddogol sy'n gofyn am daliad o'r swm priodol ar gyfer y cymelliadau TAR (AB). Bydd swm ychwanegol o 2% o gyfanswm y grant sy'n cael ei hawlio yn daladwy i ddarparwyr AGA TAR (AB) ar gyfer costau gweinyddu gwneud taliadau i fyfyrwyr. Mewn blynyddoedd blaenorol cafodd hyn ei gynnwys wrth hawlio grant hyfforddi. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, dylai darparwyr AGA TAR(AB) anfonebu Llywodraeth Cymru bob chwarter blwyddyn am y gost gweinyddu ychwanegol o 2%.

2.2 Dylid dynodi unrhyw fyfyrwr sydd wedi gadael y cwrs ar ôl cael y taliad cyntaf drwy groesi ymaith eu henwau at y Ffurflenni TTFE/2D mewn inc coch. Os gwelwch yn dda, nodwch y dyddiad y gadawodd pob myfyriwr y cwrs, nid yn unig ar ddalen y mis cyntaf, ond hefyd ar bob rhestr ddilynol.

2.3 Mae'r Ffurflen TTFE/2E 2019/20 yn cynnwys llinellau ar gyfer 'addasiadau plws' neu 'addasiadau minws'. Yn y manau hyn, dylai'r darparwyr AGA TAR (AB) nodi unrhyw symiau y maent yn eu had-dalu, neu unrhyw arian ychwanegol y maent yn ei adhawlio. Dylid esbonio ynglŷn â pha fyfyrwr y mae'r addasiadau hyn yn ymwneud yn y llythyr swyddogol eglurhaol, gan nodi'r rhesymau dros yr addasiadau (er enghraifft, ad-dalu arian a hawliwyd drwy gamgymeriad).

3. Sut trosglwyddir y cyllid ar gyfer cymelliadau TAR(AB) i ddarparwyr AGA TAR (AB)

3.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo cyllid i'r darparwyr AGA TAR (AB) erbyn y dyddiad a nodir ar yr amserlen yn adran 5. Telir yr arian yn uniongyrchol i gyfrif banc y darparwr AGA TAR (AB).

4. Sut i dalu'r cymelliadau TAR (AB) i fyfyrwyr cymwys

4.1 Dylid rhoi copi i bob myfyriwr o'r canllawiau, "Grantiau cymhelliant hyfforddi athrawon TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20: gwybodaeth i fyfyrwyr" (gweler Atodiad 1). Rhaid i ddarparwyr AGA TAR (AB) sicrhau bod bob myfyriwr cymwys yn cael copi o'r canllawiau hynny, a hynny mewn da bryd, fel y cânt gyfle i'w darllen cyn gofyn iddynt lofnodi'r 'Ffurflen TTFE/2B 2019/20' (gweler paragraff 4.2).

4.2 Cyn gwneud y taliad olaf, dylai darparwyr hyfforddiant sicrhau bod y ffurflen hawlio TTFE/2B 2019/20 (yn Atodiad 2B) wedi ei chwblhau ar gyfer pob un o'u myfyrwyr cymwys. Dylid nodi bod y ffurflen honno'n cynnwys eitem yn y datganiad sy'n gofyn i'r myfyriwr gadarnhau ei fod wedi darllen y canllawiau "Grantiau cymhelliant hyfforddi athrawon TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20: Gwybodaeth i Fyfyrwyr".

4.3 Dylai darparwyr hysbysu'r myfyrwyr o'r dyddiad cyffredin a bennir ar gyfer talu'r cymhelliant TAR (AB). Y myfyrwyr hynny yn unig, sy'n bresennol ar y cwrs ar y diwrnod talu, a fydd yn gymwys i gael taliad. Rhaid peidio â gwneud taliad i unrhyw fyfyriwr sydd wedi gadael y cwrs cyn y dyddiad hwnnw. Os bydd Llywodraeth Cymru eisoes wedi trosglwyddo cyllid i'r darparwr AGA TAR (AB) ar gyfer cymhelliant TAR

(AB) i unrhyw fyfyrwr sy'n gadael y cwrs cyn y diwrnod talu, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gweithredu i'w adennill.

4.4 Gofynnir i bob darparwr AGA TAR (AB) ddarparu tystysgrif archwilio i'r Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon, wedi ei llofnodi gan archwilwyr y darparwr. Mae'r fformat ar gyfer y dystysgrif honno yn Atodiad 2F. Bydd y dystysgrif hon yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru fod y cyllid wedi ei ddefnyddio at y diben y'i darparwyd ar ei gyfer, a bod y nifer priodol o fyfyrwyr wedi bod yn bresennol at y cwrs am y cyfnod priodol. Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan archwilwyr allanol y darparwr AGA TAR (AB) – ni fydd ffurflenni a lofnodwyd gan archwilydd mewnol y darparwr yn dderbyniol.

4.5 Yn ogystal, bydd hawl gan Lywodraeth Cymru, neu ei chynrychiolydd awdurdodedig, i fynnu cael mynediad i'r cofnodion sy'n ymwneud â'r grantiau hyn, ac i'r gwiriadau a wnaed er mwy sicrhau eu bod yn ddilys.

4.6 Mae hawlio cyllid ar gyfer taliadau o gymelliadau TAR (AB) a thaliad ar gyfer costau gweinyddu yn rhwymo'r darparwr AGA TAR (AB) i gydymffurfio â'r amodau a bennir yn y canllawiau hyn.

5. Amserlen ar gyfer talu cymelliadau TAR (AB)

Mis y taliad	Darparwyr hyfforddiant i anfon rhestrau o fyfyrwyr cymwys a hawliad am dâl at Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad hwn:	Llywodraeth Cymru i fod wedi talu'r rhandaliad o'r cymelliadau TAR (AB) i gyfrifon banc y darparwyr AGA TAR (AB) erbyn y dyddiad hwn:	Darparwyr AGA TAR (AB) i dalu rhandaliad o'r cymelliadau TAR (AB) i fyfyrwyr yn ystod yr wythnos hon:
Hydref	7 Hydref	18 Hydref	w/c 28 Hydref
Tachwedd	4 Tachwedd	15 Tachwedd	w/c 25 Tachwedd
Rhagfyr	2 Rhagfyr	13 Rhagfyr	w/c 16 Rhagfyr
Ionawr	6 Ionawr	17 Ionawr	w/c 27 Ionawr
Chwefror	3 Chwefror	14 Chwefror	w/c 24 Chwefror
Mawrth	2 Mawrth	13 Mawrth	w/c 30 Mawrth
Ebrill	6 Ebrill	17 Ebrill	w/c 27 Ebrill
Mai	4 Mai	15 Mai	w/c 25 Mai
Mehefin	1 Mehefin	12 Mehefin	w/c 29 Mehefin (gweler nodyn 3)

Nodiadau:

1. Dylid talu'r cymelliadau TAR (AB) mewn naw rhandaliad, mewn perthynas â'r cyfnod Hydref 2019 i Fehefin 2020, a byddant yn daladwy yn ystod wythnos olaf pob mis.
2. Yn achos Hydref, yr "wythnos olaf" o'r mis yw'r wythnos sy'n cynnwys diwrnod gwaith olaf y mis hwnnw, a "diwrnod gwaith" yw diwrnod, nad yw'n ddydd Sadwrn nac yn ddydd Sul, pan fo'r banciau'n agored ar gyfer busnes yng Nghymru.

3. Yr “wythnos olaf ” ym Mehefin fydd y wythnos sy’n cynnwys y diwrnod gwaith olaf ym Mehefin neu, os yw’n, yr wythnos y daw’r cwrs i ben.

Atodiad 2A: Ffurflen TTFE/2A 2019/20 – Llofnodion awdurdodedig ar gyfer hawliadau

Cymelliadau Hyfforddi Athrawon TAR (AB)
2019/20

Cymelliadau TAR (AB) – Llofnodion Awdurdodedig
ar gyfer Hawliadau

Ffurflen TTFE/2A 2019/20



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Enw'r darparwr hyfforddiant:

Enw'r unigolyn a'i swydd yn y sefydliad	Llofnod
1.	
2.	
3.	
Ardystiad gan Bennaeth yr Ysgol Addysg	
<p>Mae'r unigolion a restrir uchod wedi eu hawdurdodi i lofnodi hawliadau am daliad o gyllid cymhelliant TAR (AB) (Ffurflen TTFE/2E 2019/20) ar ran y sefydliad hwn.</p> <p>Maent hefyd wedi eu hawdurdodi i lofnodi'r ffurflenni datganiad a hysbysiad o fyfyrwyr cymwys (Ffurflenni TTFE/2C 2019/20 a TTFE/2D 2019/20) ar ran y sefydliad hwn.</p> <p>Rwy'n derbyn mai ffurflenni a lofnodwyd gan un o'r unigolion a gynhwysir ar y ffurflen hon, yn unig, a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru fel hawliadau dilys gan fy sefydliad.</p>	
Llofnod:	
Enw:	
Stamp swyddogol y darparwr:	

Dylid dychwelyd y ffurflen hon ar ôl ei llenwi at: Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, cyn 31 Hydref 2019.

Atodiad 2B: Ffurflen TTFE/2B 2019/20 – cais a datganiad myfyriwr

Cymelliadau Hyfforddi Athrawon TAR (AB) 2019/20

Cymelliadau TAR (AB) – Cais a Datganiad Myfyriwr

Ffurflen TTFE/2B 2019/20



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1. Enw'r darparwr	
2. Enw'r myfyriwr	
3. Enw'r cwrs	
4. Dyddiad dechrau'r cwrs	
5. Rhif y Myfyriwr	

6. Datganiad y myfyriwr:

Rwyf yn gwneud cais am gymhelliant TAR (AB). Gallaf gadarnhau:-

- fy mod wedi darllen y canllawiau "Grantiau cymhelliant hyfforddi athrawon TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20: gwybodaeth i fyfyrwyr" ("y nodiadau gwybodaeth")
- fy mod yn bodloni'r gofynion cymhwysra a ddisgrifir ym mharagraffau 1.1-1.3 o'r nodiadau gwybodaeth yn gymwys i mi
- nad oes yr un o'r categorïau o bersonau a ddisgrifir ym mharagraffau 1.4(a)-(g) o'r nodiadau gwybodaeth yn gymwys i mi
- * nad wyf wedi cael unrhyw gymhelliant TAR (AB) yn y gorffennol¹.

neu

- * fy mod eisoes wedi cael cymhelliant TAR (AB)¹ sef cyfanswm o £_____, a dalwyd mewn _____ o randaliadau, a deallaf y bydd fy nghymhelliant TAR (AB) yn cael ei addasu yn unol â hynny.

* (*dileer fel y bo'n briodol*)

Llofnod

(gan y myfyriwr) -----

Sylwer: Gall datganiad ffug beri bod unrhyw grant yn cael ei adhawlio

¹ Mae hyn yn cynnwys unrhyw swm o unrhyw grant a gafwyd mewn perthynas â chynlluniau cyfatebol yn Lloegr.

Dylech nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn cadw cofnod o'ch data personol (enw, rhif myfyriwr a swm cymhelliant) er mwyn cysoni a phrosesu taliadau grant cymhelliant hyfforddi athrawon TAR (AB) i ddarparwr y sefydliad/cwrs. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo eich data i unrhyw sefydliad arall.

Atodiad 2C: Ffurflen TTFE/2C 2019/20 – datganiad y darparwr

Cymelliadau Hyfforddi Athrawon TAR (AB) 2019/20

Cymelliadau TAR (AB) – Datganiad y Darparwr

Ffurflen TTFE/2C 2019/20



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Enw'r darparwr hyfforddiant:

Gallaf gadarnhau ein bod wedi gwirio bod y myfyrwyr a restrir ar y Ffurflenni TTFE/2D 2019/20 a atodir yma yn gymwys i gael cymhelliant TAR (AB) yn y flwyddyn academaidd 2019/20. Atodir Ffurflen TTFE/2B 2019/20 gyflawn ar gyfer pob myfyriwr a restrir.

Llofnodwyd ar ran y darparwr AGA:

Stamp swyddogol y darparwr:

Atodiad 2D: Ffurflen TTFE/2D 2019/20 – ffurflen hysbysu ynghylch myfyrwyr cymwys

Cymelliadau Hyfforddi Athrawon TAR (AB)
2019/20



Cymelliadau TAR (AB) – Ffurflen hysbysu
ynghylch myfyrwyr cymwys

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffurflen TTFE/2D 2019/20

Enw'r darparwr hyfforddiant:


CWRS: TAR (AB) _____

CYFENW	ENW(AU) CYNTAF	RHIF Y MYFYRIWR

CYFANSWM Y DUDALEN

CYFANSWM CYFFREDINOL Y CWRS

Atodiad 2E: Ffurflen TTFE/2E 2019/20 – hawlio taliad a datganiad

Cymelliadau Hyfforddi Athrawon TAR (AB) 2019/20	 Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cymelliadau TAR (AB) – Hawlio Taliad a Datganiad	
Ffurflen TTFE/2E 2019/20	

Enw'r darparwr AGA TAR (AB)	
Y mis y gwneir yr hawliad ar ei gyfer	
Dyddiad yr hawliad	

Enw'r Cwrs	Nifer yr hyfforddeion	Cyfradd y Taliad (£)	Cyfanswm a hawliwyd am y cwrs (£)
Addasiadau plws			
Addasiadau minws			
Cyfanswm			

Ardystiad gan y darparwr AGA TAR (AB)

- Rwy'n ardystio bod yr hawliad hwn am gyllid yn ddilys, cywir a chyflawn; a bod y gofynion cymhwystra myfyrwyr a bennir yn y canllawiau "Cymelliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20" wedi eu gwirio ac wedi eu bodloni yn achos yr hawliadau sydd wedi eu cynnwys yn y ffurflen hawlio hon.
- Rwy'n cydsynio i Lywodraeth Cymru neu ei chynrychiolwyr awdurdodedig gael mynediad i'r cofnodion sy'n ymwneud â'r hawliad hwn ac i'w harchwilio yn unol â'r trefniadau a bennir yn y canllawiau.

Llofnod	
Dyddiad	
Stamp swyddogol y darparwr	

Atodiad 2F: Ffurflen TTFE/2F 2019/20 – ardystiad yr archwilydd cymhelliant hyfforddi

Cymelliadau Hyfforddi Athrawon TAR (AB) 2019/20

Cymelliadau TAR (AB) – Ardystiad yr Archwilydd

Ffurflen TTFE/2F 2019/20 [adran 1]



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMELLIADAU TAR(AB) YNG NGHYMRU – GWARIANT YN Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2019/20

ARDYSTIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID

Rwy'n ardystio bod y gwariant, hyd eithaf fy ngwybodaeth, wedi ei dynnu yn unol â'r telerau ac amodau yn y canllawiau "Cymelliadau Hyfforddi Athrawon yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR (AB) – blwyddyn academaidd 2019/20", a bod

- y cofnodion wedi eu datgan yn deg, ac
- mai taliadau/gwariannau cymwys yn unig sydd wedi eu cynnwys, a
- bod y Sefydliad yn cynnal/wedi cynnal rheolaethau a chofnodion priodol ar gyfer rheoli'r modd y telir y grant i fyfyrwyr cymwys.

Rwyf yn cadarnhau gwerth o £..... [mewnosoder y gwerth] ar gyfer y gwariant a hawllir.

Llofnod.....**Dyddiad**.....
(Cyfarwyddwr Cyllid y Sefydliad Hyfforddi)

Enw (PRIFLYTHRENNAU).....

Enw'r Sefydliad (PRIFLYTHRENNAU).....

Enw, cyfeiriad a rhif teleffon y person cyswllt yn y Sefydliad:
(PRIFLYTHRENNAU)

.....
.....
.....
.....

Dylid cyflwyno'r ardystiad uchod i Lywodraeth Cymru ynghyd ag ardystiad yr archwilydd allanol ar y dudalen nesaf erbyn 31 Rhagfyr 2020.

Cymelliadau Hyfforddi Athrawon TAR (AB) 2019/20

Cymelliadau TAR (AB) – Ardystiad yr Archwilydd

Ffurflen TTFE/2F 2019/20 [adran 2]



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARDYSTIAD YR ARCHWILYDD ALLANOL
(llenwch un yn unig o'r ardystiadau 1, 2 neu 3)

1. Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio cyfrifon a chofnodion cysylltiedig y Sefydliad ac yn cadarnhau

- bod y grant wedi ei wario'n briodol, a
- bod y grant wedi ei ddefnyddio at y dibenion a fwriedid

yn unol â thelerau ac amodau'r canllawiau "Cymelliadau Hyfforddi Athrawon yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR (AB) – blwyddyn academiaidd 2019/20" (sef gwariant a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 14 o Ddeddf Addysg 2002) mewn perthynas â'r flwyddyn academiaidd 2019/20.

Llofnod.....

Enw (PRIFLYTHRENNAU).....

ARDYSTIAD YR ARCHWILYDD ALLANOL
(llenwch un yn unig o'r ardystiadau 1, 2 neu 3)

2 Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio cyfrifon a chofnodion cysylltiedig y Sefydliad ac wedi fy modloni y cydymffurfiwyd ag amodau'r grant, ond bod y swm a hawliwyd yn anghywir.

Rwyf wedi ardystio ffigur diwygiedig: £..... [mewn osoder y gwerth]

Llofnod.....

Enw (PRIFLYTHRENNAU).....

ARDYSTIAD YR ARCHWILYDD ALLANOL
(llenwch un yn unig o'r ardystiadau 1, 2 neu 3)

3. Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio cyfrifon a chofnodion cysylltiedig y Sefydliad ac nad wyf wedi fy modloni'n llwyr y cydymffurfiwyd ag amodau'r grant, neu fod amheuaeth a yw'r symiau a hawliwyd yn ganiatadwy.

Rwyf wedi atodi adroddiad / llythyr goleddfu sy'n manylu ar y rhesymau pam nad wyf wedi fy modloni.

Llofnod.....

Enw (PRIFLYTHRENNAU).....

Atodiad 3



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Preifatrwydd - Llywodraeth Cymru I'r rheini sy'n derbyn Cymhellion Hyfforddi Athrawon TAR (AB) - blwyddyn academaidd 2019/20

Yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018, mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â gwybodaeth y mae'n ei derbyn sy'n gysylltiedig â Chynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon TAR (AB).

Bydd yr wybodaeth yn yr hysbysiad hwn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i gynnwys unrhyw newidiadau pellach y cawn wybod amdanynt gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

1. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod eang o gynlluniau grant i helpu i weithredu ein polisiau a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth am yr unigolion sy'n cymryd rhan yng **Nghynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon TAR (AB) yng Nghymru**.

Ar ôl cael yr wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r data.

2. Pa wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael?

Mae'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu a'i chadw yn cynnwys:

- ✓ Rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi, megis:
 - Enw
 - Cwrs TAR (AB) a'i ddarparwr
 - Rhif myfyriwr
 - Swm y cymhelliant

3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

Llywodraeth Cymru fydd y 'rheolwr data' ar gyfer unrhyw ddata personol yr ydych yn eu darparu mewn perthynas â'ch cais am grant/hawliad neu wrth ofyn am gyllid grant drwy eich darparwr cwrs TAR (AB).

Fel rhan o'i chylch gwaith fel rheolwr data, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gaiff at y dibenion isod. Mae'r prosesau hyn yn angenrheidiol ac yn unol ag Erthygl 6(1)(e) GDPR lle mae angen prosesu gwybodaeth er mwyn cyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i reolwr y data:-

a. At ddibenion y Cynllun Cymhelliant:-

- ✓ I lywio a gwella polisiau mewn perthynas â rhaglenni gradd ac ôl-raddedig AGA yng Nghymru, ac i ddylanwadu arnynt
- ✓ I helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

b. At ddibenion cyllido (er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i gael y Grant Hyfforddi a'n bod yn cael gwybodaeth gywir er mwyn gwneud taliad):-

- ✓ Bydd y data uchod yn cael eu defnyddio i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i gynnal gwiriadau at berwyl atal twyll a gwyngalchu arian
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i wirio eich hunaniaeth
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

4. Â phwy y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth?

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth amdanoch a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei rhannu os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny neu'n cael ei rhannu â chyflenwr trydydd parti sydd wedi'i gontractio i weithredu ar ran Llywodraeth Cymru.

Yr Unigolion neu'r Sefydliadau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw:

- ✓ Asiantaethau atal twyll

Ni fydd Llywodraeth Cymru ond yn darparu data at ddibenion penodol ac am gyfnod cyfyngedig. Rhaid i'r sefydliad gadarnhau ei fod wedi distrywio'r data ar ôl y cyfnod cyfyngedig hwnnw.

5. Am ba mor hir y byddwn yn cadw'r data hyn?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth am hyd at 7 mlynedd ar ôl y dyddiad y bodlonwyd yr holl amodau sy'n berthnasol i'r grant ac y cafodd yr holl daliadau eu gwneud. Ar ôl y cyfnod hwnnw, bydd copïau caled o ddata'n cael eu torri'n ddarnau a chaiff data electronig eu dileu.

6. Eich hawliau o dan GDPR

Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- ✓ Gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu prosesu amdanoch chi;
- ✓ Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;

- ✓ Gwrthod (o dan rai amgylchiadau) i'r data gael eu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi;
- ✓ Cyfyngu'r prosesu (o dan rai amgylchiadau);
- ✓ Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael gwybod mwy am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, cysylltwch â Llywodraeth Cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma'r manylion cyswllt:

	Swyddog Diogelu Data:	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Cyfeiriad:	Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD CF10 3NQ	Wycliffe House Water Lane Wilmslow Swydd Gaer / Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn:	0300 0604400	029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
Cyfeiriad e-bost / Gwefan:	Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru	www.ico.gov.uk